# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 24 Chwefror 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Neville Hughes

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Dyfrig Jones.

**Ymddiheuriadau** – y Cyngr. Huw Jones a Catrin Wager.

**2. Datgan Diddordeb**
Nodwyd y rhai arferol, gyda'r datganiadau isod o dan eitem 11 – Rhoddion.

**3. Materion Brys**
Dim.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 YGC – Sherpa Shelters** – Y Clerc wedi holi os oes bosib gosod y sgrin gyda'r amserlen yn y lloches metel presennol ger yr Hen Bost. Y Clerc wedi holi am ddiweddariad, dim ymateb hyd yn hyn.
**5.2 Siop Penrhyn Pictures** –Y Clerc i fynd draw am sgwrs gyda'r perchnogion ynglyn a'r arwydd uniaith Saesneg, os nad yw'r siop ar agor, y Clerc i lythyru'r perchnogion.
**5.3 Golau Stryd Llidiart y Gwenyn** – Y Clerc wedi cyfarfod gyda Colin Worth, Cyngor Gwynedd ar y 27ain o Ionawr 2023. Y Clerc wedi derbyn amcanbris, y Clerc i gynnwys yr eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf.
**5.5 Lloches Bws Lon Newydd** – Y Clerc i gyfarfod a'r contractwr ar y safle ar y 1af o Fawrth.
**5.6 Goleuadau Nadolig** – y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn i'r adran Goleuo Stryd i gwblhau'r gwaith gosod bracedi a bocsus newydd ar gyfer y goleuadau nadolig. Y Clerc yn cyfarfod gyda'r adran ar y Stryd Fawr ar ddydd Iau, 2il Fawrth.

**5.7 Cae Chwarae Pantdreiniog –** Cadarnhawyd y bydd y contractwr D E Williams yn cwblhau'r gwaith rhisgl ymhen ryw bythefnos.
**5.8 Sedd wag** – Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag, derbyniwyd un cais hyd yn hyn. Y Clerc i'w rhoid ar agenda mis nesaf.
**5.9 CCTV Stryd Fawr –** Y Clerc wedi bod mewn cyswllt â Chyngor Gwynedd a CCTV Services i archebu'r offer, disgwyl am ddyddiad pendant pryd fydd y sustem yn gael ei osod.

**6. 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub**
Y Clerc wedi derbyn dyfynbrisiau, gyda'r pris gorau gan AMV Playgrounds. Y Clerc i archebu'r offer, ac i drefnu i contractwr lleol i ymgymryd a'r gwaith gosod pan ddaw yr offer.

**7. Cae Chwarae Abercaseg**
Derbyniwyd ebost gan Kirsten Wade ynglyn â cae chwarae Abercaseg. Adroddwyd y Cyng. Rheinallt Puw ei fod wedi trafod y mater yma hefo rhywun o'r blaen, ac wedi codi'r posibilrwydd o greu grwp cymunedol i ddatblygu'r safle, a fod modd derbyn llawer o grantiau i'r math yma o ddatblygiad, ond yn anffodus nid yw'r grantiau yma ar gael i cynghorau cymuned. Nodwyd ei fod yn hapus i helpu gyda sefydlu grwp cymunedol ac yn fodlon trefnu cyfarfod gyda'r grwp wnaeth datblygu'r cae chwarae yn Maes Tryfan, Bangor. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn cefnogi ac yn hapus i wneud cyfraniad ariannol i'r fath datblygiad.

**8. Clwb Ieuenctid**
Cadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd yn ariannu'r clwb ieuendtid am y flwyddyn 2022-23, gan obeithio fydd y Cyngor Cymuned yn hapus i ariannu ar gyfer y flwyddyn 2023-24. Y Clerc i ymateb i ddiolch i Cyngor Gwynedd ac i gadarnhau ein bod yn hapus i ariannu'r Clwb Ieuenctid ar gyfer y flwyddyn 2023-24.

**9. Ffordd Llwyn Bleddyn**
Nodwyd y Cyng. Paul Rowlinson yn anffodus nid oedd y cais grant am lwybr wedi bod yn llwyddiannus, ond gan fod y llwybr ar fap teithiau llesol fod hyn yn golygu fod y llwybr mewn sylw yn gael ein hystyried bob blwyddyn, felly yn gobeithio y cawn newyddion da flwyddyn ariannol nesaf.

**10. Ysgol Llanllechid**
**(a) Datblygiad Cae Rhosydd**
Amlygwyd y problemau gyda nifer fawr o blant yn symud i'r ardal hefo'r datblygiad, a fod Ysgol Llanllechid ddim digon mawr i'r nifer o ddisgyblion ym mis Medi . Penderfynwyd llunio llythyr i gefnogi'r cais i ehangu'r ysgol, ond yn gofyn i'r Corff Llywodraethol i blaenoriaethu ceisiadau plant sydd tu allan i'r dalgylch.

**(b) Ethol cynrychiolydd Bwrdd Llywodraethwyr**
Penderfynwyd ethol y Cyng. Catrin Wager fel cynrychiolydd Bwrdd Llywodraethwyr Ysgol Llanllechid. Y Clerc i gadarnhau gyda Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr.

**11. Rhoddion**

| | | |
|---|---|---|
| Llais Ogwan | £500.00 | *(PR & NH Datgan diddordeb)* |
| Clwb Camera Dyffryn Ogwen | £150.00 | |
| Eglwys Crist Glanogwen | £400.00 | *(AW Datgan diddordeb)* |
| Gwyl Afon Ogwen | £200.00 | |
| Clwb Criced a Bowlio Bethesda | £500.00 | |
| Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd | £50.00 | |

| | | |
|---|---|---|
| Dawns i bawb | £50.00 | |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 | |
| Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen | £150.00 | (*NH Datgan diddordeb)* |
| Ty Gobaith | £50.00 | |
| Theatr Bara Caws | £300.00 | (*LB Datgan diddordeb)* |
| Sefydliad y Merched | £50.00 | |
| Urdd Gobaith Cymru Eryri | £100.00 | |

Swyddog Hwb Rygbi – Y Clerc i ofyn am gadarnhad o'r swm cywir, mae'r llythyrau yn nodi yn wahanol.

**12. Maes Parcio Gerlan**
Dim diweddariad.

**13. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2023'
**13.1** Gwladys Thomas – Arhosfan Bws Ffordd Carneddi – Penderfynwyd i'r Clerc cysylltu â Cyngor Gwynedd i holi am yr arhosfan hwn.
**13.2** Chris Roberts – GwyrddNi – Penderfynwyd gwahodd Chris i gyfarfod mis Ebrill neu Mai.
**13.3** Dyffryn Caredig - Huw Davies – Penderfynwyd gwahodd Huw i gyfarfod mis Ebrill neu Mai.

**14. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C22/0256/13/LL**<br>Brig y Nant, Lon Newydd Coetmor | Codi 18 tŷ, ffordd newydd a thirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1055/13/DT**<br>5 Rhes Victoria, Bethesda | Newid defnydd o uned manwerthu i ofod byw domestig<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1054/13/AC**<br>88 Ffordd Carneddi, Carneddi | Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd cynllunio C19/0546/13/LL ar gyfer codi tŷ newydd er mwyn caniatáu diwygiadau i'r dyluniad a gosodiad.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/1039/13/DT**<br>1 Rallt Uchaf, Gerlan | Codi porth mynediad blaen newydd a modurdy ar ochr yr eiddo<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0012/13/DT**<br>38 Erw Lâs, Bethesda | Estyniad arfaethedig i gefn, ochr ac blaen yr eiddo yn ogystal a newidiadau parcio ac mynediad i gerbydau.<br>**Penderfyniad:**ar y gweill. |
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, High Street, | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig. |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** ar y gweill. |

**Ceisiadau**

| | |
|---|---|
| Plot 3, Yr Ardd, Gerlan | Diwygiad ansylweddol i'r cynlluniau a gymeradwywyd drwy ganiatad cynllunio C16/0007/13/ll a C21/0682/13/AC ar gyfer codi ty deulawr er mwyn codi annedd mwy.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**15. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| I G R Electrical | Gwaith trydan ar diffibrilwyr a Gorffwysfan | £117.30 |
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £40.76 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £144.95 |
| Partneriaeth Ogwen | Llogi Canolfan Cefnfaes ar gyfer Clwb Ieuenctid | £420.00 |
| John Wyn Jones | Cyflog gofalwr Chwefror 2023 | £318.40 |
| CthEM | Treth Cyflog Gofalwr Chwefror 2023 | £79.40 |